# DYFARNIAD YSGOLION SY'N PARCHU HAWLIAU UNICEF UK

## ADRODDIAD ASESU LEFEL DAU

| | |
|---|---|
| **Ysgol:** | Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw |
| **Pennaeth:** | Gail Shenton |
| **Cydgysylltydd Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau:** | Rachel Evans |
| **Awdurdod lleol:** | Abertawe |
| **Aseswyr:** | Sarah Hooke |
| **Dyddiad:** | 11 Tachwedd 2016 |

## 1. CYFLWYNIAD

Hoffai UNICEF ddiolch i Dîm Arwain yr Ysgol, y rhieni, y staff, y Llywodraethwyr ac yn bwysicaf oll y disgyblion am y croeso cynnes a roddwyd i'r aseswyr, am y cyfle i siarad ag amryw o gymuned yr ysgol yn ystod yr asesiad, ac am y dystiolaeth yn nodi'r gwaith tuag at ddod yn Ysgol sy'n Parchu Hawliau lefel 2. Cyn yr ymweliad asesu rhoesoch ffurflen cynnydd a gwerthuso a ffurflen asesu'r effaith. Roedd yn amlwg i'r aseswyr yn ystod yr ymweliad bod pawb yn rhoi pwyslais gwirioneddol ar wreiddio a chynnal ethos parchu hawliau.

Mae gan Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw awyrgylch cynhwysol, cynnes a meithringar sydd wedi'i seilio ar werthfawrogiad o hawliau a chyd-barch.

Mae Safonau A, B, C a D i gyd wedi bodloni'r meini prawf angenrheidiol.

## 2. GOFYNION CYN CYRRAEDD LEFEL 2

Ni nodwyd dim.

# 3. CYNNAL LEFEL 2

Mae ein profiad wedi dangos bod yna gamau gweithredu sydd wedi bod yn ddefnyddiol mewn ysgolion a lleoliadau eraill sy'n Parchu Hawliau wrth eu helpu i gynnal ac adeiladu ar eu harferion ar Lefel 2. Dyma ein hargymhellion i'ch ysgol chi:

- Mynd ati i weu'r Confensiwn i Gynllun Datblygu'r Ysgol trwy gysylltu Erthyglau penodol â blaenoriaethau
- Parhau i gryfhau'r gwaith ymgyrchu dros hawliau plant, yn lleol ac yn fyd-eang
- Parhau â'r rôl lysgenhadol wrth hyrwyddo a chefnogi Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau i ysgolion eraill yn yr Awdurdod Lleol a'r tu hwnt

# 4. YR ASESIAD YN FANWL

## 4.1. Cyd-destun yr ysgol

Mae Ysgol Llwynderw yn ysgol ddynodedig Gymraeg sydd yn gwasanaethu Gorllewin Abertawe ac a gynhelir gan Awdurdod Lleol Abertawe. Mae dalgylch yr ysgol yn ymestyn o Rosili ar benrhyn Gŵyr i Dderwen Fawr yn Sgeti. Mae hon yn ardal sydd yn freintiedig yn economaidd at ei gilydd a dim ond 3% o'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na'r cyfartaledd lleol a chyfartaledd Cymru gyfan.

Ar hyn o bryd, mae 330 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol. Mae gan tua 23% o'r disgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA), sydd oddeutu'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith, ac mae oddeutu 30 y cant o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg.

Cofrestrwyd Llwynderw ar gyfer Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau ym mis Gorffennaf 2014 a chyrhaeddodd Lefel 1 ym mis Gorffennaf 2016.

## 4.2. Gwybodaeth asesu

| | |
|---|---|
| **Cafwyd y ffurflen hunanwerthuso** | Do |
| **Cafwyd y ffurflen gwerthuso'r effaith** | Do |
| **Yn bresennol yng nghyfarfod Tîm Arwain yr Ysgol** | Pennaeth / Cydgysylltydd y Dyfarniad / Cadeirydd y Llywodraethwyr |
| **Nifer y plant a phobl ifanc y cyfwelwyd â hwy** | 30+ o ddisgyblion |
| **Nifer aelodau'r staff y cyfwelwyd â hwy** | 3 aelod o'r staff addysgu<br>1 aelod o'r staff cymorth<br>2 riant<br>2 lywodraethwr |
| **Y dystiolaeth a ddarparwyd** | Tro dysgu<br>Tystiolaeth ysgrifenedig<br>Gwasanaeth<br>Gwersi<br>Grŵp ffocws gyda chroestoriad o ddisgyblion |

## Safon A:
## Mae gwerthoedd parchu hawliau'n sylfaen i waith arwain a rheoli

**Mae Safon A wedi'i chyflawni**

Mae trafodaeth gyda Thîm Arwain yr Ysgol yn darparu tystiolaeth o ymrwymiad yr ysgol i greu ethos ac amgylchedd dysgu sy'n gwbl ffafriol i werthoedd ac egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Fel y nodwyd gan y Pennaeth, mae Erthyglau 28/29 yn greiddiol i fywyd yn Ysgol Llwynderw ac yn dryloyw gan mai nod yr ysgol yw "sicrhau cyfleoedd gwerthfawr i gefnogi ac ysgogi ein plant i lwyddo a chyflawni eu potensial". Cyfeiriodd disgyblion a staff yn rheolaidd at Erthygl 29 yn ystod yr asesiad, sy'n tanlinellu bod hawliau'n rhan annatod o fywyd yn Ysgol Llwynderw. Mae Tîm Arwain yr Ysgol yn monitro ac yn gwerthuso'r effaith trwy holiaduron blynyddol i'r disgyblion a'r staff, sy'n cael eu dadansoddi gyda grŵp llywio'r Dyfarniad, ac mae'r ffurflen gwerthuso'r effaith yn nodi bod effaith y Dyfarniad yn amlwg neu'n sylweddol yn y rhan fwyaf o feysydd, gyda datganiadau ag enghreifftiau. Siaradodd y Pennaeth yn hyderus am gyfraniad y Dyfarniad i'r effaith a dangosodd yr ysgol duedd at i fyny mewn presenoldeb a deilliannau disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2.

Mae tystiolaeth i ddangos bod y Dyfarniad yn llywio ac yn siapio polisïau ac arferion yr ysgol a bod hyn yn cael ei fonitro gan Dîm Arwain yr Ysgol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd, gyda chefnogaeth lwyr y Corff Llywodraethu. Mae'r Dyfarniad yn nodwedd hirsefydlog yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol ac mae gweu Erthyglau trwy feysydd â blaenoriaeth wedi cael ei nodi yn y gwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth ar ôl lefel 2. Mae Erthyglau'n amlwg yn yr holl bolisïau ac mae'r enghreifftiau a welwyd yn cynnwys cysylltu polisi Gwerthoedd ag Erthygl 3 a chysylltu Ysgolion Iach ag Erthygl 24. Mae'r Dyfarniad a gwybodaeth am y Confensiwn yn amlwg ar wefan yr ysgol ac mae Ysgol Llwynderw yn cynnwys gwybodaeth am hawliau ac Erthyglau penodol yn ei ffrwd newyddion ar Twitter sy'n ffordd o gysylltu ar amrantiad â'i chymunedau lleol a byd-eang.

Mae Tîm Arwain yr Ysgol wedi ymrwymo i wreiddio ethos cynhwysol a chyfranogol iawn yn yr ysgol ac i'r Confensiwn fod yn sail i'r gwaith hwn. Un enghraifft o hyn yw bod y Pennaeth yn gweithio gyda'r disgyblion i lunio a chyflwyno polisi 'Dim Gweiddi' i gefnogi perthnasoedd llawn parch rhwng y staff a'r disgyblion. Yn ystod yr asesiad, gwelodd yr aseswyr aelodau o'r staff yn canu a bod yn greadigol i gael sylw'r disgyblion yn yr ystafelloedd dosbarth ac yn ystod amserau chwarae/cinio. Mae'n amlwg bod y disgyblion yn gwerthfawrogi'r polisi hwn a dywedodd un disgybl "*mae ein hathrawon yn dangos parch inni a does neb yn codi ei lais yn yr ysgol. Mae hyn yn helpu ein hysgol i fod yn dawel ac yn gwneud inni i gyd deimlo ein bod ni'n cael ein gwerthfawrogi*".

Mae Ysgol Llwynderw yn awyddus i rannu ei harferion seiliedig ar hawliau ac yn parhau i fod yn llysgenhadon i'r Confensiwn a'r Dyfarniad. Mae'r cynnig i gynorthwyo ysgolion cynradd/uwchradd ei chlwstwr i ddechrau ar y Dyfarniad yn un parhaus ac roedd Tîm Arwain yr Ysgol yn gallu siarad yn hyderus ac yn alluog am fframwaith y Dyfarniad a'r arferion maent wedi'u rhannu gan gynnwys cynnal ymweliadau dysgu. Mae'r Pennaeth yn uchel ei pharch yn yr Awdurdod Lleol am ei gwaith ar hawliau plant ac mae'r athrawes arweiniol wedi'i hyfforddi fel aseswr i'r Dyfarniad ac wedi cynorthwyo ac asesu ysgolion cynradd Cymraeg ar gyfer Lefel 1.

Mae Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF) yn thema allweddol sy'n rhedeg ar draws yr ysgol gyfan mewn ffordd systematig ac wedi'i gwreiddio. Mae'n cael sylw ar draws gwaith cynllunio topigau a meysydd cwricwlaidd ac mae'r holl waith yn cael ei gysylltu â'r Confensiwn. Fel ysgol, mae pob grŵp blwyddyn yn cael ei addysgu am ddinasyddiaeth leol yn y tymor cyntaf, lle mae'r disgyblion yn dod i gysylltiad â'u cymunedau lleol a'u treftadaeth leol cyn ymdrin â materion cenedlaethol yn yr ail dymor a rhai byd-eang yn y trydydd tymor. Roedd y disgyblion a'r staff yn gallu rhoi enghreifftiau o ddysgu byd-eang a'i gysylltu'n ôl i'w dysgu cwricwlaidd. Roedd y disgyblion yn gallu disgrifio eu dysgu a'u canfyddiadau mewn cyd-destun byd-eang "*mae miliynau o blant yn colli'r ysgol oherwydd eu bod nhw'n cael eu gorfodi i weithio mewn ffatrïoedd. Mae hyn yn golygu bod llawer o'u hawliau'n cael eu gwrthod"* fel y dywedodd un disgybl o flwyddyn 6.

## Safon B:
## Mae cymuned yr ysgol gyfan yn dysgu am y Confensiwn
**Mae Safon B wedi'i chyflawni**

Yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, roedd gan y disgyblion a'r staff y cyfwelwyd â hwy wybodaeth gadarn am y Confensiwn ac roeddent yn gallu dyfynnu hawliau yn ogystal â

rhifau Erthyglau penodol yn hyderus. Roedd y plant iau y siaradwyd â hwy yn ystod ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth yn gallu siarad am y gwahaniaeth rhwng beth mae pobl ei eisiau a beth mae arnynt ei angen, a rhestru amrywiaeth o anghenion sy'n gysylltiedig â hawliau h.y. yr angen i fynd i'r ysgol (Erthygl 28), yr angen i fod yn ddiogel (Erthygl 19) a'r angen am fwyd iach a dŵr glân (Erthygl 24). Mae dealltwriaeth trwy'r ysgol gyfan fod hawliau'n gyffredinol ac yn berthnasol i bob plentyn ym mhob man. Roedd disgyblion y siaradwyd â hwy yn ystod grŵp ffocws yn gallu rhannu'n rhwydd enghreifftiau o wrthod hawliau a rhoi esboniadau clir a dangos goddefedd a dealltwriaeth o sefyllfaoedd plant ledled y byd. Roedd sylwadau'r disgyblion yn cynnwys "*all plant yn y byd ddim yfed dŵr glân oherwydd y wlad neu'r pentref lle maen nhw'n byw"* a *"dyw plant sy'n ffoaduriaid ddim yn cael llawer o'u hawliau oherwydd eu bod nhw wedi gorfod gadael eu gwlad oherwydd rhyfel"*.

Rhoddwyd gwybod i rieni a theuluoedd am y Dyfarniad a'r Confensiwn trwy gylchlythyrau, llythyrau, tasgau gwaith cartref penodol, arddangosiadau a gwasanaethau. Mae Ysgol Llwynderw yn rhoi cyfleoedd i deuluoedd lenwi ffurflenni gwerthuso'r effaith er mwyn mesur ymwybyddiaeth o flaenoriaethau'r ysgol a chael eu hadborth. Cadarnhaodd y staff eu bod yn ymgysylltu'n rhwydd â rhieni/gofalwyr ac yn defnyddio iaith hawliau ar faterion fel presenoldeb yn gysylltiedig ag Erthygl 28. Nododd un rhiant y siaradwyd ag ef fod *"hawliau'n fframwaith gwych i'w ddefnyddio gyda phlant. Mae fy mhlant yn dysgu mewn amgylchedd lle maen nhw'n teimlo'n ddiogel a bod pobl yn eu parchu ac yn gwrando arnyn nhw – mae hyn yn eu helpu i ffynnu*". Mae'r Llywodraethwyr yn gwbl gefnogol a rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf am y Dyfarniad iddynt yn rheolaidd trwy gyfarfodydd pob tymor ac mae'r disgyblion wedi rhoi cyflwyniad yn un o gyfarfodydd y Corff Llywodraethu llawn.

Yn ystod y tro dysgu o gwmpas yr ysgol, roedd yn amlwg bod arddangosiadau'n cael eu cysylltu'n eglur ag Erthyglau ac mae 'Poli'r Parot' (masgot y Dyfarniad) i'w weld ym mhob rhan o'r ysgol. Yn ystod yr asesiad cafwyd gwasanaeth oedd yn dathlu gwybodaeth y disgyblion am hawliau a'r ffordd maent yn rhan annatod o fywyd yr ysgol, ac yn rhannu rhai enghreifftiau o'r ffordd y gwneir hyn. Mae Tîm Arwain yr Ysgol wedi gweithio'n gydweithredol gyda'r disgyblion i gynllunio a gweithredu ymagwedd hawl y mis sy'n cysylltu dathliadau, gweithgareddau ysgol gyfan a'u haddysg ar werthoedd gydag un o'r Erthyglau. Wedyn defnyddir yr Erthygl maent yn canolbwyntio arni fel sail i wasanaethau dosbarth a thrafodaethau amser cylch.

Mae tystiolaeth i gefnogi ymdriniaeth ar draws y cwricwlwm yn y portffolio tystiolaeth a rhannodd y disgyblion enghreifftiau o'u dysgu am hawliau mewn Hanes, Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol a thopigau ar draws y cwricwlwm ABCh. Rhannodd y disgyblion enghraifft o ddysgu am hanes Matilda (a meddwl am fwynhau/gwrthod ei hawliau) mewn cysylltiad â'u gwaith llythrennedd. Enghraifft arall a roddwyd oedd gwaith a gwblhawyd yn ddiweddar ym maes Gwyddoniaeth ar Tim Peake gyda chysylltiad ag Erthygl 17 a rhannu gwybodaeth. Wrth drafod cynllunio'r cwricwlwm gyda'r athrawon, dywedodd un athro *"mae hawliau wedi dod yn un o flociau adeiladu i'n gwaith cynllunio – rydyn ni'n cynnwys Erthyglau ym mhopeth a wnawn*".

Roedd y disgyblion y cyfwelwyd â hwy'n gallu siarad am wersi lle roeddent wedi dysgu am hawliau mewn perthynas â dinasyddiaeth fyd-eang a thrwy eu dysgu mae'n gwbl glir y gallant weld y cysylltiadau rhwng y ffordd y gall amgylchiadau a digwyddiadau yn y Deyrnas Unedig ac yn y byd ehangach effeithio ar allu plant i gael eu hawliau sylfaenol. Mae'r cwricwlwm yn

caniatáu ar gyfer addysgu am gynaliadwyedd, cydraddoldeb a mynd i'r afael â stereoteipio. Un enghraifft o hyn yw'r gwaith sy'n cael ei wneud gydag ysgol yn Zambia mae Ysgol Llwynderw wedi'i phartneru â hi. Roedd y disgyblion yn gallu siarad am bethau sy'n debyg ac yn wahanol ym mywydau'r plant wedi'u cysylltu â hawliau yn Affrica ac yng Nghymru, a siarad am y ffordd y *"gallwn ddysgu oddi wrth blant yn Zambia oherwydd nid dim ond mater ohonyn nhw'n dysgu oddi wrthym ni yw e*" fel y dywedodd un disgybl.

## Safon C:
## Mae gan yr ysgol ethos o barchu hawliau

**Mae Safon C wedi'i chyflawni**

Mae siarterau'n cael eu harddangos ym mhob dosbarth o'r Meithrin i Flwyddyn 6. Roedd y disgyblion oedd yn arwain y tro dysgu a disgyblion mewn dosbarthiadau'n gallu disgrifio diben eu siarterau a'r ffordd y cawsant eu creu a lle roeddent yn cael eu harddangos. Mae'r siarterau'n amrywio o ran eu dyluniad a cheir ynddynt iaith oed-briodol yn y gwahanol grwpiau blwyddyn. Fodd bynnag, roedd yr holl blant yn deall nad yw'r hawliau'n amodol a sut mae angen iddynt barchu hawliau pobl eraill. Roedd trafodaethau gyda'r disgyblion yn caniatáu rhannu enghreifftiau o sefyllfaoedd lle gallai hawliau gael eu gwrthod h.y. bwlio'n cael ei gysylltu ag Erthygl 19 a tharfu ar ddysgu'n cael ei gysylltu ag Erthygl 28. Roedd consensws rhwng y staff a'r disgyblion bod y siarterau wedi cyfrannu at amgylchedd dysgu cadarnhaol a rhannodd yr athrawon dystiolaeth anecdotaidd o ddisgyblion yn defnyddio iaith seiliedig ar hawliau'n naturiol gyda'u cyfoedion pan maent yn teimlo bod eu hawliau'n cael eu gwrthod.

Roedd yr holl ymarferwyr dosbarth a disgyblion y cyfwelwyd â hwy yn defnyddio iaith ac ymddygiad sy'n parchu hawliau. Roedd arsylwadau ym mhob rhan o'r ysgol yn darparu tystiolaeth o ddisgyblion sy'n ymddwyn yn gwrtais ac yn llawn parch at ei gilydd ac mae'r cyd-barchu rhwng y staff a'r disgyblion yn un o gryfderau'r ysgol. Cafodd hyn ei atgyfnerthu gyda disgyblion sy'n gwerthfawrogi eu hathrawon ac yn nodi "*dyw ein hathrawon ddim yn gweiddi, maen nhw'n siarad â ni ac yn gwrando ar yr hyn sydd gennyn ni i'w ddweud bob amser*". Fel y nodwyd yn Safon A, mae'r Pennaeth wedi gweithio gyda'r disgyblion i gyflwyno polisi 'Dim Gweiddi', sy'n golygu bod y staff yn greadigol yn y ffyrdd maent yn cael sylw'r disgyblion yn y dosbarth ac yn ystod amserau cinio a chwarae. Hefyd, roedd y Pennaeth yn teimlo bod y Dyfarniad yn darparu "*fframwaith sy'n eiddo i bawb ac sy'n creu ethos ac amgylchedd sy'n rhoi plant a pharch atyn nhw wrth ei wraidd*".

Mae'r disgyblion yn gwerthfawrogi Erthygl 28 ac roeddent yn meddwl bod parchu hawl eu cyfoedion i ddysgu yr un mor bwysig. Siaradodd y disgyblion am hyn yn ystod trafodaethau ac ymweliadau ag ystafelloedd dosbarth. Mae Erthygl 29 a chynorthwyo'r holl blant i gyflawni eu potensial yn flaenoriaeth glir yn Ysgol Llwynderw. Siaradodd y disgyblion am gael eu cynnwys yn eu dysgu a chael y cyfle i fynegi eu barn am yr hyn maent yn ei ddysgu, gan ddweud "*mae fy athro yno i'm helpu pan dwi angen mynd dros rywbeth"* a "*maen nhw'n gofyn inni beth rydyn ni eisiau dysgu amdano mewn topigau newydd"*. Mae'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn y gwaith o osod ac adolygu targedau unigol bob pythefnos ac mae'r disgyblion yn cael llais yn eu hadroddiadau diwedd blwyddyn.

Roedd yn glir yn ystod y trafodaethau bod Ysgol Llwynderw yn darparu amgylchedd diogel ac iach i'r disgyblion a chadarnhawyd hyn pan ofynnwyd i'r disgyblion ddisgrifio eu hysgol mewn

un gair. Roedd yr atebion a roddwyd yn cynnwys: diogel, parch, hapus a balch. Roedd y disgyblion yn gallu nodi nifer fawr o weithgareddau yr oeddent wedi cymryd rhan ynddynt y gellid eu cysylltu ag Erthygl 19 gan gynnwys: wythnos gwrth-fwlio, Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, rôl Comisiynydd Plant Cymru a staff ac arferion sy'n cynorthwyo gydag amddiffyniad a diogelwch iddynt. Mae holiaduron grŵp ffocws y disgyblion yn cadarnhau bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn credu bod yr ysgol yn ddiogel ac y gallent enwi unigolion allweddol y gallent roi gwybod iddynt pe bai ganddynt broblem. Mae'r staff a'r disgyblion yn cytuno bod y Confensiwn yn cael ei ddefnyddio fel fframwaith i ymdrin ag ymddygiadau a gwrthdaro lefel isel a'u datrys. Dywedodd y disgyblion, pan mae problemau'n codi (gan gyfeirio'n benodol at yr iard chwarae), y cânt eu hannog i drafod sut maent wedi effeithio ar fwynhad plentyn arall o'i hawliau a chydweithio i ganfod atebion sy'n parchu hawliau mewn modd teg a democrataidd.

Mae gan y disgyblion yn Ysgol Llwynderw ymwybyddiaeth fawr o degwch a hawliau sylfaenol plant ledled y byd. Roedd y disgyblion yn hyderus wrth herio anghydraddoldebau byd-eang ac mae'n amlwg eu bod yn defnyddio'r Confensiwn i adnabod eu hunain fel dinasyddion byd-eang. Yn ystod yr asesiad, rhoddwyd enghreifftiau o waith elusennol mae Ysgol Llwynderw wedi bod yn rhan ohono ac mae ymgyrchu dros hawliau plant yn mynd i gael ei gryfhau fel rhan o waith parhaus y Dyfarniad ar ôl lefel 2.

## Safon D:
## Galluogir plant i fod yn ddinasyddion a dysgwyr gweithgar
**Mae Safon D wedi'i chyflawni**

Mae'r disgyblion yn cael eu cynnwys yn gyson ym mhob agwedd ar fywyd yn Ysgol Llwynderw ac mae sianelau ffurfiol ac anffurfiol i ddisgyblion gyfranogi a mwynhau Erthygl 12. Mae disgyblion yn cael eu hethol gan eu cyfoedion i amrywiaeth o fforymau disgyblion gan gynnwys Cyngor yr Ysgol, Eco-sgolion, Ysgolion Iach ac Arweinwyr Digidol, sydd i gyd yn hybu hawliau plant fel rhan o'u gwaith. Siaradodd y cynrychiolwyr ar grwpiau disgyblion am eu rôl ac am rywfaint o'r gwaith maent wedi'i wneud ac wedi cymryd rhan ynddo. Roedd yr enghreifftiau'n cynnwys cyfweld â gweithwyr newydd, cynllunio adeilad newydd yr ysgol, ailysgrifennu'r polisi Ymddygiad, cyflwyno loceri i'r disgyblion, cynnal cystadleuaeth ysgol gyfan i ddewis eu masgot hawliau, mynd i gyfarfodydd y Llywodraethwyr a phrynu gwisgoedd chwaraeon newydd. Mae llais y disgybl yn cael ei ymestyn i'r disgyblion eraill trwy gynrychiolwyr dosbarth a bydd cynghorau'n cyflwyno gwasanaethau ac yn rhoi adborth i'r dosbarthiadau ar ôl cyfarfodydd. At hynny, anogir y disgyblion i'w mynegi eu hunain nid yn unig trwy gynghorau etholedig, ond yn ystod gwersi a thrwy ddefnyddio amser cylch a phroses 'cofnodi' bob bore.

Gall y disgyblion gael gwybodaeth i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus. Mae'r ysgol yn mabwysiadu ymagwedd amlasiantaethol ac yn gweithio'n effeithiol gyda phartneriaid/sefydliadau allanol i addysgu'r disgyblion am faterion sy'n effeithio arnynt e.e. e-ddiogelwch a gwrth-fwlio. Mae'r disgyblion wedi cael y cyfle i ymgysylltu ag ymwelwyr o'r fath ac elwa o'r ymweliadau trwy weithgareddau dosbarth a gwasanaethau ysgol gyfan. Un enghraifft o Ysgol Llwynderw yn gweithio'n effeithiol y tu hwnt i gatiau'r ysgol yw ei bod wedi cymryd rhan yn 'Y Sgwrs Fawr am Ddemocratiaeth' yn Abertawe. Gweithiodd disgyblion

gyda'r Awdurdod Lleol i helpu i adolygu polisïau a chyfrannu eu syniadau wrth osod blaenoriaethau newydd a meysydd newydd ar gyfer datblygiad.

Mae'r disgyblion wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ac ymgyrchoedd i weithredu i gynnal hawliau plant yn lleol ac yn fyd-eang, a rhannwyd enghreifftiau drwy gydol yr asesiad. Mae'r disgyblion wedi cefnogi elusennau cenedlaethol fel UNICEF, y Groes Goch a Phlant mewn Angen, ac maent hefyd yn gweithio i gefnogi elusennau lleol trwy ddathliadau megis Diolchgarwch. Mae'r disgyblion yn deall sut mae eu gweithredoedd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant yn lleol ac yn fyd-eang.